**ATODIAD 7**

# CONSORTIWM DYSGU 16 -19 GWYNEDD A YNYS MÔN

## 1. Partïon

Cyngor Gwynedd

Cyngor Sir Ynys Môn

Ysgolion Uwchradd (Chweched Dosbarth) Gwynedd ac Ynys Môn

Grŵp Llandrillo-Menai

("y Partïon")

## 2. Rhagair

2.1 Mae'r Partïon wedi cytuno i ymuno yn y cytundeb yma i gyd weithio er mwyn gwireddu Amcanion y Consortiwm drwy ymrwymo i'r gyfundrefn a osodir yn y cytundeb.

2.2 Wrth ymuno yn y cytundeb yma mae'r Partïon yn cytuno i ffurfioli eu perthynas drwy sefydlu eu cyfrifoldebau ac ymrwymiadau i'w gilydd.

2.3 Mae'r Partïon yn ymuno yn y cytundeb yma drwy'r pwerau a roddi'r iddynt yn narpariaethau Adran 2 – Deddf Llywodraeth Leol 2000, Adrannau 13A a 15A Deddf Addysg 1996, Adran 82 Deddf Addysg Pellach ac Uwch 1992 ,Adrannau 33K, 33L a 116A Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Rheoliadau ac Arweiniad cysylltiedig.

## 3. Diffiniadau

O fewn y cytundeb yma bydd gan y termau canlynol yr ystyr a roddir iddynt isod onibai fod y cyd destun yn mynnu'n wahanol

| | |
|---|---|
| Addysg a Hyfforddiant ôl 16 | Darpariaeth Addysg a Hyfforddiant ar gyfer disgyblion neu fyfyrwyr 16-19 oed |

| | |
|---|---|
| | y priodolir darpariaethau Rhan II o Ddeddf Addysg a Sgiliau 2000 ( Cwricwlwm Lleol) iddynt. |
| Anghydfod Arwyddocaol | Anghydfod sydd yn cynhyrchu risg gwirioneddol i allu y Consortiwm i gyflawni Amcnaion y Consortiwm neu i weithredu a pherfformio yn unol â’r cytundeb yma. |
| Anghenion Dysgu Ardal | Anghenion Addysg a Hyfforddiant ol 16 Ardal y Consortiwm wedi eu hadnabod ar sail gwybodaeth a thystiolaeth yn cynnwys; dyhead dysgwyr, cyfleon, yr economi a gofynion y farchnad lafur leol, ac ystyriaeth o’r ddarpariaeth ddysgu bresennol yng Ngwynedd ac Ynys Môn |
| Ardal y Consortiwm | Ardaloedd Gweinyddol Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn |
| Arweiniad Strategol | Datganiad o arweiniad y Bwrdd Arweiniol yn gosod cyd-destyn strategol ar gyfer creu’r Fanyleb. |
| Blwyddyn Addysgol | 1 Medi i 31 Awst |
| Bwrdd Arweiniol | Bwrdd Arweiniol a gyfansoddir yn unol a Chymal 13 |
| Cadeirydd Annibynnol | Unigolyn nad yw yn gyflogedig nac yn aelod o strwythurau llywodraethu unrhyw gorff neu sefydliad a gynrychiolir ar y Bartneriaeth na chysylltiad agos perthnasol. |

| | |
|---|---|
| Corff Arweiniol | Cyngor Gwynedd yn gweithredu ei swyddogaeth fel Corff Arweiniol ar gyfer y Grant Ewrop |
| Colegau | Coleg Menai a Choleg Meirion Dwyfor |
| Cylch Cynllunio | Y Cylch Cynllunio, Gweithredu a Monitro a geir yn Atodlen 1 |
| Cwricwlwm Lleol | Cwricwlwm Lleol neu gyfuniad o Gwricwla Lleol yn unol â'r disgrifiad yn Adran 33A Deddf Addysg a Sgiliau 2000 ar gyfer ardal y Consortiwm. |
| Cynnig | Cynnig y Darparwyr ar y cyd mewn ymateb i'r Fanyleb ar gyfer cyflawni darpariaeth Addysg a Hyfforddiant ol 16 yn ardal y Consortiwm ar ffurf i'w benodi |
| Darpariaeth | Y ddarpariaeth fydd wedi ei chytuno gan y Consortiwm ar gyfer Ardal y Consortiwm ar gyfer ei gyflwyno i'r Gweinidog Addysg yn unol a chyfundrefn Adran 33A Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 er sefydlu Cwricwlwm Lleol. |
| Darparwr | Sefydliad, unai yn Ysgol Uwchradd neu Goleg Addysg Bellach sydd yn darparu Addysg a Hyfforddiant ol 16 oed yn uniongyrchol i fyfyrwyr o fewn Ardal y Consortiwm |

| | |
|---|---|
| Dyddiad Cychwyn | |
| Grant Ewrop | |
| Partneriaeth Ddysgu | Partneriaeth Ddysgu Gwynedd ac Ynys Môn a gyfansoddir yn unol âchymal 13 |
| Rhith Dim | Tim o swyddogion arbenigol o blith staff y Partïon fydd yn cael ei ffurfio yn ôl yr angen er mwyn cyflawni gwaith cefnogol penodol i'r Consortiwm e.e. cyflenwi data. |
| Y Fanyleb | Y ddogfen s'yn gosod manylion y gofynion ar gyfer cynllunio'r ddarpariaeth Addysg a Hyfforddiant ol 16 ar gyfer Ardal y Consortiwm yn unol a'r ffurf i'w benodi |
| Trefn Datrys | Y Drefn Datrys yng Nghymal 16 |

## 4. Egwyddorion Cydweithio

4.1 Mae'r Partïon yn ymrwymo i'r canlynol :

(a) I gyd weithio er mwyn gwireddu a hyrwyddo gwaith y Consortiwm ac Amcanion y Consortiwm

(b) I ymgymryd â'u swyddogaethau o fewn y Consortiwm fel y nodir yn y cytundeb hwn mewn modd positif a rhagweithiol

(c) hyrwyddo'r drefn gyd weithio o fewn eu sefydliadau unigol a'u trefniadau rheoli, a sicrhau fod y drefn yn cael ei gweithredu,

(ch) gweithredu a hyrwyddo trefniadau Addysg a Hyfforddiantol 16 drwy gyfrwng y Consortiwm yn unig.

(d) yn ddarostyngedig i fframwaith gyllido Addysg a Hyfforddiant ol 16 Llywodraeth Cymru darparu’r adnoddau angenrheidiol er mwyn gweithredu’r Cwricwlwm Lleol sydd yn deillio o waith y Consortiwm.

(dd) gweithredu mewn ewyllys da gan barchu a chymeryd gofal o enw da eu cyd bartneriaid,

**5. Amcanion y Consortiwm**

5.1 Sefydlir y Consortiwm er gwireddu a gweithredu yr Amcanion canlynol sydd yn sylfaen ymrwymiad y Partïon:

(a) Sicrhau trefn a darpariaeth o ragoriaeth ar gyfer Addysg a Hyfforddiant ol 16 Gwynedd ac Ynys Môn trwy:

(i) Leihau cystadleuaeth a dyblygu gan ddod o hyd i ddulliau effeithlon o gael canlyniadau gwell i bobl ifanc.

(ii) Cynnal lefelau uchel o gyrhaeddiad ymysg dysgwyr yn y cyfnod ôl-16

(iii) Ehangu’r dewis i ddysgwyr yn y cyfnod ôl-16 ac ymateb i anghenion y farchnad lafur leol.

(iv) Ehangu cyfranogiad dysgwyr yn y cyfnod ôl-16 ac ymateb i’r agenda ar dlodi ac amddifadedd.

(v) Ymestyn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a hybu a chryfhau’r Gymraeg fel cyfrwng addysgu.

(b) Ymateb i ddisgwyliadau Agenda Trawsnewid Llywodraeth Cymru.

(c) Cyfarfod â gofynion Llywodraeth Cymru ynglŷn â chyd weithio ym maes Addysg a Hyfforddiant ol 16, yn benodol: Adrannau 33K a 33L 116A Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 Cylchlythyr Llywodraeth Cymru – Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 021/2010.

**6. Gwaith y Consortiwm**

Mae'r Partïon yn ymrwymo i gyd weithio i gyflawni y canlynol yn unol a'r Cytundeb yma:

(a) Sefydlu a gweithredu trefn gynllunio strategol ar gyfer darpariaeth gydlynol i Addysg a Hyfforddiant 16 i 19 Gwynedd ac Ynys Môn

(b) Sefydlu Cwricwlwm Lleol ar gyfer Ardal y Consortiwm drwy gyfundrefn gynllunio y Consortiwm.

(c) Sefydlu a chynnal trefn rheoli perfformiad y ddarpariaeth Addysg a Hyfforddiant ol 16 fewn Ardal y Consortiwm i gefnogi Amcanion y Consortiwm.

**7. Swyddogaeth yr Awdurdodau Lleol**

7.1 Mae'r Awdurdodau Lleol yn ymrwymo i weithredu y canlynol yn unol a thelerau'r cytundeb yma:

(a) Gwasanaethu ar Fwrdd Arweiniol y Consortiwm

(b) Cydweithio o fewn y Bartneriaeth Ddysgu i adnabod anghenion yr ardal er mwyn gosod y cyfeiriad strategol i ddarpariaeth Addysg a Hyfforddiant ol 16 Gwynedd ac Ynys Môn;

(c) Mewn partneriaeth gyda'r ysgolion a'r colegau cefnogi paratoi'r Cynnig

(ch) Cymryd rhan lawn o fewn y Rhith-Dîm arbenigeddau amrywiol fydd yn cefnogi gwaith y Consortiwm a'r darparwyr gan sicrhau fod y swyddogion priodol ar gael fel bo angen.

(d) Rheoli cyllideb Addysg a Hyfforddiant ol 16 mewn modd sydd yn hyrwyddo a chefnogi Amcnaion y Consortiwm

(dd) Monitro, asesu a  sicrhau ansawdd y dysgu.

**8. Swyddogaeth Strategol Grŵp Llandrillo-Menai o fewn y Consortiwm**

8.1 Mae Grŵp Llandrillo Menai yn ymrwymo i weithredu’r canlynol yn unol â thelerau’r cytundeb yma yn ei weithgareddau sydd yn berthnasol i’r Consortiwm:

(a) Gwasanaethu ar Fwrdd Arweiniol y Consortiwm

(b) Cydweithio o fewn y Bartneriaeth Ddysgu i adnabod Anghenion Dysgu Ardal er mwyn gosod y cyfeiriad strategol i ddarpariaeth Addysg a Hyfforddiant ol 16 Gwynedd ac Ynys Môn;

(c) Mewn partneriaeth gyda’r Awdurdodau Lleol a’r ysgolion cefnogi paratoi’r Cynnig;

(ch) Cymryd rhan lawn o fewn y Rhith-Dîm arbenigeddau amrywiol fydd yn cefnogi gwaith y Consortiwm a’r darparwyr gan sicrhau fod y swyddogion priodol ar gael fel bo angen

(d) Comisiynu’r ddarpariaeth ddysgu ôl-16 gan safleoedd y Colegau o fewn yr ardal gan gytundebu i ddarparu cyrsiau penodol mewn lleoliadau penodol yn unol â’r Cwricwlwm Lleol fydd wedi ei gymeradwyo yn sgil y broses yma.

(dd) Rheoli cyllideb Addysg a Hyfforddiant 16 -19 mewn modd sydd yn hyrwyddo a chefnogi Amcnaion y Consortiwm .

(e) Monitro, asesu a sicrhau ansawdd y dysgu.

**9. Swyddogaeth y Darparwyr (Ysgolion Uwchradd a’r Colegau)**

9.1 Mae’r Darparwyr yn ymrwymo i weithredu’r canlynol yn unol â thelerau’r cytundeb yma:

(a) Cydweithio o fewn a gyda’r Bartneriaeth Ddysgu i adnabod Anghenion Dysgu’r Ardal er mwyn gosod y cyfeiriad strategol ac i amlygu cyfleoedd o ran cynllunio’r Cwricwlwm Lleol;

(b) Ymateb i'r Fanyleb a ddarperir gan y Bartneriaeth Ddysgu drwy lunio a chyflwyno Cynnig ar y cyd gyda Darparwyr eraill yn unol â Chylch Cynllunio'r Consortiwm a'r amserlen fydd wedi ei phennu drwy gymal 12.

(c) Cydweithio gyda'r Darparwyr eraill i lunio cynigion penodol ar y cyd o ran cyrsiau cydweithredol er mwyn cyfrannu at osgoi dyblygu, cynyddu gwerth am arian, a sicrhau'r profiadau gorau i'r dysgwr;

(ch) Ymrwymo i ddarparu Cwricwlwm Lleol yn unol â'r Ddarpariaeth fydd wedi ei gymeradwyo neu addasu o bryd i'w gilydd yn unol a'r cytundeb yma.

(d) Monitro, asesu a sicrhau ansawdd y dysgu gan gyd-ddarparu Adroddiad Blynyddol ar berfformiad a chyrhaeddiad yn erbyn gofynion y Fanyleb.

(dd) Mewn ymgynghoriad a'r Bartneriaeth Ddysgu cytuno ar fframwaith ad-dalu costau cyrsiau unigol a ddarperir ar gyfer myfyrwyr a disgyblion mewn sefydliad arall.

## 10. Swyddogaeth y Bartneriaeth Ddysgu o fewn y Consortiwm

10.1 Mae'r Partïon yn cytuno y bydd gan y Bartneriaeth Ddysgu y swyddogaethau canlynol o fewn y Consortiwm:

(a) Gyrru a chefnogi Amcanion y Consortiwm ynghyd â'r Cylch Cynllunio, Gweithredu a Monitro trwy:

i) Adnabod Anghenion Dysgu Ardal,

ii) Darparu'r Arweiniad Strategol i'r Bwrdd Arweiniol ar gyfer sefydlu'r ddarpariaeth Addysg a Hyfforddiant ol 16, ar sail gwybodaeth a thystiolaeth,

iii) Cynhyrchu’r Fanyleb i gyfarch Anghenion Dysgu’r Ardal ac ymateb i Ddisgwyliad Cyfeiriad y Bwrdd Arweiniol,

iv) Darparu arweiniad, cefnogaeth, gwybodaeth a chyngor i’r cyd-ddarparwyr ar gyfer paratoi’r Cynnig,

v) Gwirio ac asesu pob Cynnig a gyflwynir gan y Darparwyr ar y cyd mewn ymateb i’r Fanyleb gan argymell i’r Bwrdd Arweiniol y ddarpariaeth fwyaf priodol ar gyfer cwrdd ag anghenion ardal y Consortiwm,

vi) Cadw mewn cysylltiad gyda’r Darparwyr trwy’r holl Gylch Cynllunio, Gweithredu a Monitro gan gymryd camau priodol i ddatrys y prif rwystrau all godi,

vii) Monitro ansawdd a chyflawniad,

viii) Gweithredu fel corff datrys ar gyfer datrys rhwystrau neu anghydfod o dan Drefn Datrys y Consortiwm

## 11. Bwrdd Arweiniol

11.1 Mae’r Partïon yn cytuno y bydd gan y Bwrdd Arweiniol y swyddogaethau canlynol o fewn y Consortiwm:

(a) Arwain ar gyfeiriad strategol y Consortiwm.

(b) Ystyried yr Arweiniad Strategol a ddarperir gan y Bartneriaeth Ddysgu, ac ar sail y wybodaeth gyflwynir, gosod y cyfeiriad strategol lefel uchel (Disgwyliad Cyfeiriad)

(c) Ystyried argymhelliad y Bartneriaeth Ddysgu ar y Cynnig a gyflwynwyd gan y darparwyr ar y cyd, a chymeradwyo’r Ddarpariaeth ar sail Anghenion Dysgu Ardal er mwyn cyrraedd Amcnaion y Consortiwm.

(ch) Gweithredu fel uwch gorff datrys ar gyfer datrys rhwystrau neu anghydfod o dan Drefn Datrys y Consortiwm.

## 12. Proses

12.1 Mae'r partïon yn ymrwymo i ddilyn y broses a amlinellir yn y Cylch Cynllunio ar gyfer sefydlu'r Ddarpariaeth drwy ddilyn camau 1 i 8 yn y Cylch Cynllunio ac o fewn yr amserlen a nodir yn 12.3 isod.

12.2 Yn ddarostyngedig i benderfyniad y Gweinidog Addysg drwy Adran 33A Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 a darpariaethau'r cytundeb yma cytunir y bydd y Ddarpariaeth yn sail ar gyfer y Cwricwlwm Lleol am gyfnod o 3 blynedd a bydd y Darparwyr yn sicrhau adnoddau a chapasiti o fewn eu sefydliadau i gyfarch y gofyn drwy gydol y cyfnod.

12.3 Mae'r Partïon yn cytuno i weithredu eu swyddogaethau er sicrhau fod yr allbynnau a restrir isod yn cael eu darparu o fewn yr amserlen ganlynol wrth sefydlu'r Ddarpariaeth:

| | Cam | Cyfrifoldeb | Dyddiad cyflawni |
|---|---|---|---|
| **1.** | **Cynhyrchu y Fanyleb** | **Partneriaeth Ddysgu** | **1 Hydref** |
| **2.** | **Cynnig Drafft** | **Darparwyr (ar y cyd)** | **10 Ionawr** |
| **3.** | **Cymeradwyo'r Ddarpariaeth** | **Bwrdd Awreiniol** | **1 Chwefror** |
| **4.** | **Cyflwyno'r Ddarpariaeth i'r Gweinidog Addysg yn unol ac Adran 33A Deddf Addysg a Sgiliau 2000.** | **Darparwyr** | **Amserlen Llywodraeth Cymru** |

12.4 Bydd monitro rheolaidd o berfformiad a chyrhaeddiad y Consortiwm yn seiliedig ar y cyrhaeddiad tuag at Amcanion y Consortiwm. Darperir adroddiad blynyddol ar berfformiad y Consortiwm i'r Bartneriaeth Ddysgu gyda adroddiad cynnydd chwarterol (i gynnwys hefyd y cynnydd tuag at dargedau'r Cais Ewropeaidd). Gweinyddir y broses monitro gan y Corff Arweiniol ar ran y Consortiwm.

12.5 Paetai'r monitro a gyfeirir ato yn 12.4 uchod yn canfod neu yn awgrymu fod risg na fydd y Consortiwm yn perfformio'n ddigonol yn erbyn yr Amcanion y Consotriwm neu fod angen adolygu'r Ddarpariaeth am ba reswm bynnag, gan gynnwys ymateb i ddatblygiadau neu newidiadau sydd yn effeithio ar Ardal y Consortiwm yna gall y Bartneriaeth Ddysgu, er cynnal perfformiad a chyrhaeddiad tuag at y Amcanion y Consortiwm wneud argymhellion i'r Partïon gyda'r bwriad yma neu gyrhaeddiad neu gall gychwyn adolygiad ô'r Ddarpariaeth.

12.6 Gweithredir adolygiad o'r Dddarpariaeth fel yr amlinellir yn 12.5 uchod drwy ddilyn camau 6 i 8 yn y Cylch Cynllunio yn unol â amserlen a gytunir fydd yn caniatau, pe cyfyd yr angen, addasu y Ddarpariaeth ac o ganlyniad y Cwriciwlwm Lleol ar gyfer y Flwyddyn Addysgol ganlynol.

12.7 Petai adolygiad o'r Ddarpariaeth, yn nhyb y Bartneriaeth Ddysgu, yn arwain at neu yn debygol o arwain at ddiwygio y Ddarpariaeth mewn modd a fyddai'n gwyro oddi wrth yr Arweiniad Strategol yna mae'n ofynnol fod ymgynghori Grŵp Arweiniol cyn ei weithredu

12.8 Mae'r Partïon yn cytuno i ddarparu gwybodaeth ac ystadegau i'r Corff Arweiniol ar gais rhesymol er caniatau monitro perfformiad y Consortiwm

12.9 Mae'r Partion yn cytuno i gydweithredu'n llawn gyda ymgynghorwyr allanol fydd wedi eu comisiynu i gwblhau gwaith megis sefydlu systemau gybodaeth a data; gwerthuso ac adnabod effaith gwaith y consortiwm.

**13. Strwythurau Penderfynu**

13.1 Mae’r Consortiwm wedi cytuno i’r trefniadau Llywodraethu canlynol ar gyfer y cyrff fydd yn cyfrannu at gyflawni gwaith y Consortiwm

13.2 Bydd aelodaeth, cworwm a chadeirio’r cyrff yn unol â’r Tabl isod:

| **Corff** | **Partneriaeth Ddysgu Gwynedd ac Ynys Môn** | **Bwrdd Arweiniol** |
|---|---|---|
| **Aelodaeth (“Aelodau Cynrychioladol”)** | 2 Cynrychiolydd Cyngor Gwynedd*<br><br>2. Cynrychiolydd Cyngor Sir Ynys Môn*<br><br>2 Gynrychiolydd o Ysgolion Uwchradd Gwynedd*<br><br>2 Gynrychiolydd o Ysgolion Uwchradd Ynys Môn*<br><br>2 Gynrychiolydd Coleg Menai*<br><br>2 Gynrychiolydd Coleg Meirion Dwyfor*<br><br>1. Cynrychiolydd Prifysgol Bangor<br><br>1 Cynrychiolydd Gyrfa Cymru<br><br>1. Cynrychiolydd Canolfan Byd Gwaith<br><br>2 gynrychiolydd o fusnes o fewn Ardal y Consortiwm. | Aelod Cabinet Addysg Cyngor Gwynedd<br><br>Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>Cadeirydd neu Is Gadeirydd Bwrdd Llywodraethu Grŵp Llandrillo-Menai<br><br>(Cefnogir yr aelodau yn y cyfarfodydd gan brif swyddogion perthnasol y cyrff a gynrychiolir). |
| **Eraill** | Swyddog Llywodraeth Cymru (sylwedydd drwy wahoddiad) | Uchel Swyddog Llywodraeth Cymru (sylwedydd drwy wahoddiad) |
| **Cadeirydd** | O blith yr aelodaeth ond gall y Bartneriaeth benderfynu ar Gadeirydd Annibynnol. | O blith aelodaeth |
| **Cworwm** | 5 aelod a ddynodir gyda “ * “ | 3 Aelod |

13.3 Wrth ymgymryd â’u swyddogaeth o fewn y Consortiwm bydd angen i’r Aelodau Cynrychiadol wneud y canlynol:-

- Dderbyn hawl gweithredol i gymeryd rhan lawn yn eu cyfrifoldebau o fewn y Consortiwm
- Gwybod barn eu corff neu sefydliad a chyflwyno'r farn honno mewn cyfarfodydd;
- Diweddaru gwybodaeth eu sefydliadau am yr hyn sy'n digwydd yn y Consortiwm ;

13.4 Yn ddarostyngedig i 13.3 gall corff a gynrychiolir yn y Bartneriaeth Ddysgu neu y Bwrdd Arweiniol anfon aelod amgen i ddirprwyo ar ran aelod sefydlog mewn cyfarfod ble na all yr aelod fynychu'r cyfarfod cyfan yn amodol fod y Corff Arweiniol yn derbyn rhagrybudd ysgrifenedig o'r bwriad cyn diwrnod y cyfarfod gan nodi na all aelod etholedig na swyddog ddirprwyo y naill i'r llall.

## 14. Cyfarfodydd Y Bartneriaeth Ddysgu

14.1 Bydd y Bartneriaeth Ddysgu yn cyfarfod yn chwarterol fel isafswm. Trefnir cyfarfodydd eraill yn ôl y gofyn i ymateb i'r Cylch Cynllunio a'r Broses( Cymal 12).

14.2 Caiff y Cadeirydd ei benodi am gyfnod i'w bennu gan y Bartneriaeth yn ei gyfarfod cyntaf.

14.3 Cyfrifoldeb y Corff Arweiniol fydd clercio'r Bartneriaeth Ddysgu a galw cyfarfodydd mewn ymgynghoriad a'r Cadeirydd.

14.4 Ac eithrio Cyfarfod Arbennig caiff agenda ar gyfer cyfarfodydd y Bartneriaeth Ddysgu heblaw am gyfarfodydd arbennig ei ddosbarthu i'r Aelodau Cynrychioladol o leiaf pum diwrnod cyn dyddiad y cyfarfod. Ni fydd unrhyw gais rhesymol gan Aelod Cynrychioladol am gael cynnwys eitem o fusnes perthnasol i waith y Consortiwm ar agenda yn cael ei wrthod.

14.5 Cynhelir cyfarfodydd arbennig o'r Bartneriaeth Ddysgu cyn gynted ag sy'n ymarferol ar gais y Cadeirydd neu unrhyw dri Aelod Cynrychioladol drwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Clerc yn gofyn am gael cynnal cyfarfod, wedi'i arwyddo gan bob un o'r tri Aelod Cynrychioladol.

14.6 Bydd cofnodion y cyfarfodydd a chofrestr presenoldeb yn cael eu cadw. Byddant yn cael eu cyflwyno i gyfarfod nesaf y Bartneriaeth Ddysgu i'w cymeradwyo.

14.8 Bydd gan bob Aelod Cynrychioladol un bleidlais mewn cyfarfod ac er yr anogir y Grwpiau i gyrraedd consensws penderfynir materion ar bleidlais mwyafrifol syml.

## 15. Cyfarfodydd y Bwrdd Arweiniol

15.1 Bydd amserlen yn cael ei sefydlu ar gyfer cyfarfodydd am y flwyddyn i gyd fynd a'r cylch Cynllunio a'r Broses( Cymal 12).

15.2 Bydd ffurf cytunedig ar gyfer y rhaglen yn cael ei bennu a bydd yn gymwys ar gyfer pob cyfarfod.

15.3 Bydd penderfyniadau'r y Bwrdd Arweiniol ar sail consensws y cyfarfod.

15.4 Cyfrifoldeb y Corff Arweiniol fydd clercio'r Bwrdd Arweiniol.

15.5 Bydd cofnodion y cyfarfodydd a chofrestr presenoldeb yn cael eu cadw. Byddant yn cael eu cyflwyno i gyfarfod nesaf y Bwrdd Arweiniol i'w cymeradwyo.

## 16. Trefn Datrys

16.1 Bydd unrhyw Anghydfod Arwyddocaol ynglŷn ag unrhyw agwedd o'r cytundeb a gweithrediad y Consortiwm yn cael ei ddatrys yn unol â'r cymal yma. Mae'r Partïon yn ymrwymo a chytuno i ymagweddu yn adeiladol tuag at ddatrys anghydfod gan geisio ( yng nghyd destun y Consortiwm , Egwyddorion Cyd Weithio ac Amcnaion y Consortiwm) adnabod datrysiad sydd yn osgoi gweithredu trefn ffurfiol ac yn cynnal perthynas weithio gryf rhwng y Partïon.

16.2 Pe cyfyd anghydfod neu anghytundeb ynglŷn â gwaith y Consortiwm na ellir ei ddatrys o fewn y Corff ble y cyfyd yna gweithredir y drefn datrys canlynol:

(a) Cyfeirir crynodeb ysgrifenedig ar ran Parti neu Bartïon yn esbonio fod cais i weithredu y Drefn Datrys, cefndir yr anghydfod ynghyd ag opsiynau ar gyfer datrys i'w anfon i'r Corff Arweiniol.

(b) Bydd y Corff Arweiniol yn galw cyfarfod o'r Bartneriaeth Ddysgu I drafod yr anghydfod ac i argymell datrysiad. Cynhelir y cyfarfod o fewn 10 diwrnod gwaith yn dilyn y diwrnod y derbynnir y cyfeiriad gan y Corff Arweiniol.

(c) Bydd y Bartneriaeth Ddysgu yn darparu ymateb ysgrifenedig i'r anghydfod fydd yn cael ei gyfleu i bob Parti..

(ch) Gall y Bartneriaeth Ddysgu gyfeirio anghydfod i sylw'r Bwrdd Arweiniol a ceisio arweiniad ar ddatrys yr anghydfod.

16.3 Pe na byddai modd datrys Anghydfod Arwyddocaol yn dilyn gweithredu y drefn uchod bydd y mater yn cael ei ystyried gan y Grŵp Arweiniol gyda golwg ar wneud argymhellion i'r Awdurdod Lleol neu Gorff Llywodraethol perthnasol ar briodoldeb gweithredu cyfundrefn cyllido Addysg a Hyfforddiant ol 16, cyfeiriad ffurfiol at y Gweinidog Addysg yn unol ag Adran 33L Deddf Addysg a Sgiliau 2000 neu briodoldeb gweithredu pwerau statudol perthnasol ynglŷn â rheolaeth a threfniadaeth addysg a hyfforddiant .

## 17 Llinell Goch

17.1 Pe canfyddir y byddai'r Fanyleb neu'r Cynnig o'i weithredu yn arwain at neu yn creu risg sylweddol fyddai yn arwain at danseilio sefydliad neu safle unigol gan gynnwys ei gallu i gynnal 6ed dosbarth yna bydd cymeradwyaeth y Fanyleb, Cynnig neu'r Ddarpariaeth yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Corff Perthnasol a nodir yng Ngholofn 2 yn y tabl isod.

| **Sefydliad Addysgu** | **Corff Perthnasol** |
|---|---|
| Ysgol | Awdurdod Addysg Lleol ar gyfer y sefydliad |
| Coleg | Bwrdd Llywodraethu Grŵp Llandrillo-Menai |

## 18. Cyfrifoldebau'r Corff Arweiniol

Yn ddarostyngedig i adnoddau bydd y Corff Arweiniol â chyfrifoldebau ynglŷn â gweinyddiaeth y Consortiwm fydd yn cynnwys gweithredu fel cyflogwr staff perthnasol, darparu adnoddau swyddfa a chefnogaeth weinyddol cyllid a chyfreithiol i'r Consortiwm.

## 19. Ymrwymiad i Amodau'r Grant Ewropeaidd

Bydd disgwyl i aelodau'r Consortiwm, ymrwymo i gydymffurfio ag unrhyw ofynion penodol sydd ynghlwm â chefnogaeth ariannol a dderbynnir tuag at y prosiect ynghyd ag ymrwymiad i ddarparu arian cyfatebol am gyfnod y grant. Bydd ystod a lefel yr ymrwymiad yma yn gymesur â lefel y risgiau i'r Corff Arweiniol a'r partneriaid unigol. Bydd yr amodau yma yn goroesi terfynu neu ymneillteuo o'r cytundeb yma.

## 20 Adolygu'r Gytundeb

20.1 Bydd y cytundeb yma yn parhau mewn grym o'r Dyddiad Cychwyn hyd onir y bydd y Partion yn unfrydol wedi cytuno i'w diddymu.

20.2 Pe cyfyd yr angen gall y Bartneriaeth Ddysgu gynnal adolygiad o berfformiad, cyrhaeddiad a thelerau'r Consortiwm yn ystod Blwyddyn Addysgol 2015/2016 i'w

gwblhau erbyn 31 Rhagfyr 2015 gyda’r bwriad o wneud argymhellion ar y mater i’r Partion ar gyfer cyfnod dilynol y Consortiwm.

## 21. Ymneilltuo o’r Bartneriaeth

21.1 Petai unrhyw un o’r Partïon am ymneilltuo o’r Consortiwm yna bydd gofyn iddynt gyflwyno rhybudd ysgrifenedig (“Rhybudd Ymadael”) ymlaen llaw yn datgan y bwriad a’r rhesymau i’r Corff Arweiniol gan ddarparu o leiaf 12 mis o ragrybudd i ddirwyn i ben ar 31 Awst.

21.2 Mae’r Partïon yn ymrwymo a chytuno i ymagweddu yn adeiladol tuag at ddatrys anghydfod gan geisio ( yng nghyd destun y Consortiwm , Egwyddorion Cyd Weithio ac Amcnaion y Consortiwm) adnabod datrysiad sydd yn osgoi gweithredu trefn ffurfiol ac yn cynnal perthynas weithio gref rhwng y Partïon a disgwylir i unrhyw Barti sydd am gyflwyno Rhybudd Ymadael ynghyd â’r Consortiwm, wrth ymateb, gyd ymffurfio â’r egwyddor yma wrth ystyried gweithredu ac wrth ymateb.

21.3 Bydd gofyn i’r sawl sydd yn cyflwyno rhybudd o dan gymal 20.1 anfon copi o’r rhybudd i’r Partïon eraill ar yr un adeg.

21.4 Cyfeirir y Rhybudd i’r Grŵp Arweiniol i’w ystyried o fewn 10 diwrnod gwaith o ddyddiad y cyflwyno. Bydd Rhybudd o’r fath yn cael ei ystyried yn unol â chymal 16.3

## 22. Cyflwyno Dogfennau

Ble ceir cyfeiriad at gyflwyno rhybudd neu gyfathrebiad i’r Corff Arweiniol, Partneriaeth Ddysgu neu’r Bwrdd Arweiniol yn y cytundeb yma yna gellir ei ddanfon drwy law, post dosbarth cyntaf wedi ei dalu, post cyflwyno arbennig, ffacs neu e-bost wedi ei gyfeirio at :

Neu pa bynnag gyfeiriad amgen yr hysbysir mewn ysgrifen i’r Partïon o bryd i’w gilydd

## ATODIAD 1 : Y CYLCH CYNLLUNIO, GWEITHREDU A MONITRO